

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Annibynnol New Hall

Wardiau Adferiad, Clwyd a
Glaslyn

Mental Health Care (UK)

Dyddiad arolygu: 9 – 11 Mawrth
2020

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mehefin
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	24
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	29
	Atodiad B – Cynllun gwella	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Ysbyty Annibynnol New Hall gyda'r nos ar 9 Mawrth, a'r diwrnodau canlynol, sef 10 ac 11 Mawrth 2020. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Glaslyn – Uned Diogelwch Isel – 12 o welyau
- Ward Clwyd – Uned Adsefydlu Dan Glo – 12 o welyau
- Ward Adferiad – Uned Adsefydlu Agored – 8 gwely.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom fod y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Dyweddodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweinyddiaeth roeddent yn eu cael.

Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar weithgareddau addysg, seicoleg, therapi galwedigaethol a chymunedol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Roedd amrywiaeth dda o therapïau a gweithgareddau yn cael ei darparu i'r cleifion
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi'u cwblhau yn unol â Mesur y Gymraeg.
- Trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau'r polisïau
- Gwybodaeth y staff am leoliad torwyr clymau
- Cwblhau'r gwaith o adnewyddu Ward Adferiad.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn, yr oedd angen cymryd camau i'w hunioni ar unwaith.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae New Hall wedi ei gofrestru i ddarparu gofal iechyd meddwl annibynnol yn Ysbyty Annibynnol New Hall, Ffordd New Hall, Rhiwabon, Wrecsam, LL14 6HB.

Mae gan y gwasanaeth 32 o welyau i gyd, ac mae'n darparu gofal i ddynion yn unig ar dair ward. Ar adeg yr arolygiad, roedd 14 o gleifion yno.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 1 Ebrill 2002.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys Rheolwr yr Ysbyty, Dirprwy Reolwr yr Ysbyty a'r Rheolwr Cyfleusterau, Seiciatrydd Ymgynghorol, Seicolegydd Clinigol a dau gynorthwydd seicoleg, dau therapydd galwedigaethol a phedwar therapydd galwedigaethol cynorthwyol, gweithiwr cymdeithasol, nyrs practis, nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Ar adeg ein harolygiad, roedd gan ddirprwy reolwr yr ysbyty gyfrifoldeb cyffredinol am yr ysbyty.

Cefnogwyd gweithrediad yr ysbyty o ddydd i ddydd gan dimau penodedig o staff gweinyddol, ystadau, cadw tŷ ac arlwyo.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, a gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da yn yr ysbyty.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau a therapïau addas ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty, ac yn y gymuned, er mwyn helpu i adsefydlu'r cleifion.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau ym maes hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn New Hall a oedd yn helpu i gynnal a gwella eu llesiant. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am fwyta'n iach, rhoi'r gorau i smygu a phatrymau cysgu iach.

Gallai'r cleifion gael gwasanaethau meddyg teulu a deintyddol a gweld gweithwyr iechyd proffesiynol corfforol eraill yn ôl yr angen. Roedd clinig dynion iach yn cael ei gynnal bob dydd Sul i fonitro iechyd corfforol a llesiant pob claf. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol; a oedd yn cynnwys rhestr wirio ¹Fy Iechyd Corfforol er mwyn helpu'r cleifion i nodi anghenion iechyd corfforol a allai fod ganddynt.

Roedd gan New Hall amrywiaeth eang o gyfleusterau, a oedd mewn cyflwr da, er mwyn helpu i ddarparu therapïau a gweithgareddau. Roedd pob therapydd

¹Gwiriad iechyd corfforol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl
<https://www.rcpsych.ac.uk/pdf/RethinkPHchecklist.pdf>

galwedigaethol yn cael ei gefnogi gan ddau therapydd galwedigaethol cynorthwyol er mwyn helpu i hwyluso asesiadau a gweithgareddau.

Roedd pob ward yn cynnwys ystafelloedd gweithgareddau, cegin therapi galwedigaethol, lolfeydd ac ystafelloedd cyfarfod. Roedd gwagle mawr yn ardal gymunedol y wardiau adsefydlu a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nosweithiau sinema a theledu cymunedol yn ogystal â bwrdd pŵl ac ystafell weithgareddau fawr a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a chyfarfodydd.

Roedd campfa gyda digon o offer ynddi ar Ward Clwyd, a oedd ar a gael i holl gleifion yr ysbyty. Roedd hyfforddwr personol yn mynychu'r ysbyty ddwywaith yr wythnos i roi cyngor ar hyfforddiant. Mae gofyn i bob claf gwblhau cwrs sefydlu yn y gampfa cyn defnyddio'r offer.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom sawl gweithgaredd yn cael ei gwblhau ar y wardiau ac roedd y staff yn aml yn helpu'r cleifion gyda'u gweithgareddau. Roedd y cyfarfodydd bore y gwnaethom eu mynychu hefyd yn annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a rhoddwyd pwyslais clir ar gynllunio gweithgareddau'r dydd ar eu cyfer. Roedd hyn yn gwneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau roeddent yn eu mwynhau ac roedd ganddynt ddiddordeb ynddynt.

Roedd gan yr ysbyty dri cherbyd dynodedig; dau fws mini ac un car. Mae'r rhain yn helpu'r staff i hwyluso gweithgareddau i'r cleifion ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

Ni chaniatawyd i neb smygu yn unrhyw un o'r unedau. Fodd bynnag, gellid smygu yn y gerddi caeedig sy'n rhan o'r ysbyty.

Urddas a pharch

Nodwyd bod pob cyflogai, staff y ward, yr uwch-reolwyr a'r staff gweinyddol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgarg tuag at y cleifion.

Roedd polisïau'r ysbyty a'r arferion staff a welsom yn helpu i gynnal urddas y cleifion a gwella gofal i'r unigolyn yn yr ysbyty. Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal i adolygu a thrafod arferion er mwyn lleihau'r cyfyngiadau ar gleifion yn ysbyty New Hall yn seiliedig ar risgiau cleifion unigol.

Roedd yr ysbyty'n parhau i gael ei gynnal a'i gadw'n dda ar ôl cael ei adnewyddu â dodrefn a gosodiadau o safon uchel drwyddi draw, gan greu amgylchedd gofal dymunol iawn. Roedd rhywfaint o waith adnewyddu'n mynd rhagddo o hyd ar adeg yr arolygiad.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun y gallai fynd iddi drwy gydol y dydd. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas i gleifion. Roedd drysau'r ystafelloedd gwely yn cloi'n awtomatig wrth eu cau a oedd yn rhwystro cleifion eraill rhag cael mynediad, ond gallai'r staff ddatgloi'r drysau os oedd angen.

Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely ac roedd yn amlwg bod modd i gleifion bersonoli eu hystafelloedd gwely. Roedd digon o le i gleifion storio eu heiddo personol yn eu hystafelloedd a oedd yn cynnwys man storio y gellid ei gloi. Roedd unrhyw eitemau oedd yn cael eu hystyried yn beryglus i gleifion, fel raseli neu ganiau erosol yn cael eu storio'n ddiogel ac yn drefnus ar bob ward a gallai'r cleifion ofyn amdanynt yn ôl yr angen.

Roedd paneli arsylwi yn nrysau'r ystafelloedd gwely fel y gallai'r staff arsylwi ar y cleifion heb agor y drws ac amharu arnynt o bosibl. Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod y paneli arsylwi ar gau a'u bod yn cael eu hagog er mwyn arsylwi cyn eu cau drachefn. Roedd hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd yr ystafelloedd gwely ar Wardiau Clwyd a Glaslyn yn cynnwys en-suite gyda thoiled, basn a chawod. Roedd un ystafell wely ar Ward Adfer hefyd yn cynnwys en-suite ac roedd yr ystafelloedd gwely eraill yn cynnwys thoiled a chawod. Ar adeg ein harolygiad, dim ond un claf oedd ar Ward Adferiad. Er bod y gwaith adeiladu wedi gorffen ar ôl adnewyddu Ward Adferiad, roedd deunyddiau adeiladu heb gael eu symud o bob ardal. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gwaith adnewyddu yn cael ei gwblhau a bod y deunyddiau adeiladu'n cael eu symud cyn derbyn unrhyw gleifion eraill ar y ward hon. Yn ogystal â hyn, roedd dŵr wedi achosi ychydig o ddifrod i'r ystafell â'r gawod gymunedol ar Ward Adferiad. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod llawr newydd yn cael ei osod.

Roedd gan bob ward ystafelloedd penodol i gleifion gyfarfod â staff y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd ystafell ymweld ddymunol iawn hefyd, yn nerbynfa'r ysbyty, a oedd ar gael i'r cleifion gyfarfod ag ymwelwyr, gan gynnwys y plant yn eu teuluoedd.

Roedd ffonau talu ar bob ward er mwyn i'r cleifion wneud galwadau ffôn. Roedd gorchudd preifatrwydd ar y ffonau talu er mwyn rhoi rhywfaint o breifatrwydd i'r cleifion. Yn ogystal â hyn, roedd trefniadau amgen addas ar waith ar bob un o'r

wardiau er mwyn galluogi'r cleifion i wneud a derbyn galwadau ffôn mewn ystafell breifat os oedd angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl waith adeiladu yn cael ei gwblhau a bod y deunyddiau adeiladu'n cael eu clirio cyn bod rhagor o gleifion yn cael eu derbyn i Ward Adferiad.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod llawr newydd yn cael ei osod yn ystafell y gawod gymunedol ar Ward Adferiad.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd gan yr ysbyty ddatganiad ysgrifenedig o ddiben a chanllaw gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr. Os nad oedd y cleifion yn gallu rhoi caniatâd, roedd tystiolaeth o brofion capasiti yn nodiadau'r cleifion.

Ar y wardiau, gwelsom bosteri eiriolaeth a oedd yn darparu manylion cyswllt ar gyfer cael gafael ar y gwasanaeth. Roedd gwybodaeth am eiriolaeth a thystysgrifau cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd yn cael eu harddangos. Roedd gwybodaeth am y broses gwyno a sut i wneud cwyn hefyd wedi'i harddangos. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am rôl AGIC na sut y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad. Gwelsom fod gwybodaeth am hybu iechyd wedi'i harddangos ym mhob uned yn ogystal â gwybodaeth am fwyta'n iach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig arddangos gwybodaeth am sut y gellir cysylltu ag AGIC.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn gwneud yn siŵr eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i bob claf. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i ddeall rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Yn aml, gwelsom y cleifion yn mynd at amrywiaeth o staff o'r tîm aml-ddisgyblaethol, ac roedd yn ganmoladwy gweld y staff yn treulio amser yn siarad â'r cleifion hyd yn oed os oeddent yn delio ag ymrwymïadau eraill ar y pryd.

Gwelsom gyfarfodydd staff yn cael eu cynnal a dangosodd y staff lefel dda o ddealltwriaeth o'r cleifion roeddent yn gofalu amdanynt. Dywedodd pob claf y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn teimlo'n ddiogel a'i fod yn gallu siarad ag aelod o staff os oedd angen. Roedd parch amlwg a chydberthnasau sicr cryf rhwng y staff a'r cleifion.

Buom yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd clinigol, ac roedd yn amlwg bod trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn a oedd orau i'r claf unigol. Pan oedd y claf yn bresennol yn y cyfarfodydd, roedd pob aelod o'r staff yn ymgysylltu ag ef mewn ffordd barchus ac yn gwrando ar ei safbwyntiau, gan roi rhesymau clir iddo dros y penderfyniadau a wnaed. Roedd yn galonogol gweld a chlywed trafodaethau a dadleuon proffesiynol yn cael eu cynnal yn ystod y cyfarfodydd pan oedd asesiadau risg unigol yn cael eu trafod. Roedd hyn yn dangos bod pob aelod o'r staff yn cyfrannu at y broses cudd-wybodaeth a gwybodaeth, a bod barn pob aelod o'r staff yn cael ei hystyried a'i thrafod wrth wneud penderfyniad pwysig ar lefel y risg i glaf a'i anghenion.

Roedd pob ward yn cynnal cyfarfodydd cynllunio dyddiol er mwyn trefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, megis cyfarfodydd cynllunio gofal, apwyntiadau meddygol a thriwiwnlysoedd.

Roedd cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda rheolwr yr ysbyty lle roedd y cleifion yn cael cyfle i roi adborth ar y gofal y maent yn ei gael yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd.

Gwnaeth yr ysbyty hefyd gynnal Arolwg Boddhad Cleifion blynyddol yn ogystal ag Arolwg Teulu a Ffrindiau blynyddol. Dangosodd adolygiad o ganlyniadau diweddaraf yr arolygon hyn fod y cleifion a'u teuluoedd a'u ffrindiau yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty New Hall. Gwnaethom hefyd siarad ag aelod o'r teulu yn ystod yr arolygiad a roddodd adborth da iawn i ni ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Yn yr achosion lle nad oedd y canlyniadau a'r sylwadau yr un mor ffafriol, roedd yr ysbyty wedi rhoi camau ar waith er mwyn mynd i'r

afael ag unrhyw ddiffygion. Roedd hefyd yn braf gweld bod yr ysbyty wedi cofnodi'r cwynion a dderbyniwyd am y staff.

Cynllunio a darparu gofal

O safbwynt cynllunio gofal ac arferion yn yr ysbyty, roedd pwyslais clir ar adsefydlu gyda gofal wedi'i addasu i gleifion unigol a'i gefnogi gan yr arferion lleiaf cyfyngol.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol ei hun, a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, a gynhelir yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd ei angen, roedd awdurdodiad wedi cael ei roi).

Gwelsom dystiolaeth fod adolygiadau amlddisgyblaethol misol yn cael eu cynnal a bod y cleifion yn cymryd rhan lawn yn y broses. Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig i alluogi'r cleifion i gyflawni nodau unigol. Roedd ein canfyddiadau'n cynnwys tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn helpu'r ysbyty i roi gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd ymarfer y staff, a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty, yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal. Roedd papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cwblhau'n gywir er mwyn cadw cleifion yn yr ysbyty. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn deall y rheswm dros eu cadw ac roedd ganddynt ddealltwriaeth o'u hawliau pan roeddent yn yr ysbyty.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfarfodydd cleifion ac arolygon yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr am sut i roi adborth. Gwelsom dystiolaeth o arolygon cleifion diweddar a chynlluniau gweithredu a oedd yn dangos sut roedd yr ysbyty yn gwneud gwelliannau a newidiadau yn seiliedig ar ganlyniad yr arolwg cleifion.

Roedd polisi cwynion a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â phob cwyn yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod person annibynnol wedi'i bennu i ymchwilio i gwynion a bod camau yn cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y darparwr cofrestredig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol.

Roedd cwynion yn cael eu categorio'n rhai anffurfiol a ffurfiol. Roedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi ar bob ward mewn dogfen bapur, gyda chwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi ar gofnodlyfr cwynion cyfrifiadurol i'r ysbyty cyfan. Roedd cwynion hefyd yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol y cleifion, ynghyd â'u canlyniadau. Roedd y broses gwyno a chymau gweithredu cysylltiedig yn cael eu goruchwyllo gan reolwr yr ysbyty.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion. Gwelsom fod y staff yn cwblhau'r prosesau a'r dogfennau clinigol fel sy'n ofynnol.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diweddarau polisïau.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan New Hall brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd ei angen. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn ymateb i larymau personol ar unwaith er mwyn helpu'r cleifion.

Roedd manau galw am nyrs hefyd o amgylch y wardiau ac yn ystafelloedd gwely cleifion er mwyn i gleifion alw am gymorth os oedd angen.

Roedd system gyfrifiadurol ddiogel ar waith ar gyfer rheoli a dyrannu allweddi'r wardiau a'r ysbyty i'r staff. Roedd hyn yn sicrhau hyn mai dim ond allweddi i'r rhannau o'r ward a'r ysbyty yr oedd ganddynt awdurdod i fynd iddynt a oedd yn cael eu rhoi i'r staff. Byddai'r staff yn casglu'r allweddi o gwprdd â chlo arno ar bob ward gan ddefnyddio manylion adnabod personol. Nid oedd y staff yn gallu gadael heb ddychwelyd yr allweddi i'r cwpwrdd â chlo arno, a oedd yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o risg y gallai aelodau o'r staff fynd ag allweddi'r ysbyty oddi ar y ward.

Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg diweddar ar gael mewn perthynas â phwyntiau clymu. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau oedd wedi cael eu cymryd i ddileu neu reoli'r rhain. Roedd nifer o dorwyr clymau ar gael ar bob ward i'w defnyddio pe bai argyfwng hunan-niweidio. Fodd bynnag, yn ystod yr

arolygiad, nid oedd pob aelod o staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o leoliad y torwyr clymau. Mae'n hollbwysig bod aelodau o staff yr ysbyty yn ymwybodol o leoliad y torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng.

Nodwyd bod strategaethau ar waith ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Soniwyd bod technegau ataliol yn cael eu defnyddio ac y byddai'r staff, lle y bo angen, yn arsylwi ar gleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn peri pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod y cleifion yn cael eu rhwystro'n gorfforol mewn ffordd ddiogel, ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o ddulliau atal corfforol yn cael ei ddogfennu, gan gynnwys pwy oedd dan sylw ac osgo corff pob person a oedd yn ymwneud ag atal y claf.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol yn ôl yr angen i edrych ar feysydd penodol yn ôl y gofyn. Roedd y system a'r amserlenni ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel yn ysbyty New Hall.

Roedd yr ysbyty wedi rhoi cynllun parhad busnes ar waith a oedd yn cynnwys ymatebion y gwasanaeth i bethau fel tywydd garw, methiannau cyfleustodau ac achosion o glefydau heintus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr ysbyty yn ymwybodol o leoliad pob torrwr clymau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd staff cadw tŷ dynodedig wedi'u cyflogi yn y gwasanaeth. Roedd holl ardaloedd cymunedol yr ysbyty yn lân ac yn daclus yr olwg. Roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd system gynhwysfawr o archwiliadau rheolaidd ar waith o ran rheoli heintiau. Roedd archwiliadau dyddiol yn cael eu cwblhau a'u ffeilio'n briodol. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel bod y cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth gan y staff, yn seiliedig ar anghenion unigol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod pennau mopiau glân yn cael eu storio gyda dillad glân y cleifion. Nid yw hyn yn ddull glân o'u storio ac mae angen i'r ysbyty feddwl am ffordd arall o gadw'r mopiau glân ar Ward Glaslyn.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol ac nid oedd y rhain wedi'u gorlenwi.

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod yr ysbyty yn lân heb unrhyw annibendod. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod llwch ar silffoedd y ffenestri ar Ward Clwyd a Ward Glaslyn a bod angen eu glanhau.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn rhai mannau yn yr ysbyty; roedd arwyddion priodol i gyd-fynd â'r rhain, ond nid oedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael yn nerbynfa'r ysbyty a byddem yn argymhell y dylai cynhyrchion o'r fath fod ar gael yn y lleoliad hwn i'r ymwelwyr.

Hefyd, nodwyd bod cadeiriau yn y lolfa ar Ward Glaslyn a Ward Clwyd wedi'u difrodi. Rhaid newid neu drwsio'r cadeiriau hyn gan eu bod yn peri risgiau o ran rheoli heintiau a diogelwch cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y mopiau glân yn cael eu storio mewn ffyrdd gwahanol a phriodol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynhyrchion hylendid dwylo ar gael yn nerbynfa'r ysbyty.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cadeiriau yn y lolfa ar Wardiau Glaslyn a Chlwyd yn cael eu newid neu eu trwsio.

Maeth

Nodwyd gennym fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd ar fwydlen pedair wythnos. Gwelsom fwydlen amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu dewis eu bwyd. Roedd ffrwythau ffres ar gael yn hawdd i'r cleifion, yn ogystal â diodydd ar bob ward.

Dywedodd y staff wrthym fod darpariaeth ar gyfer cleifion â deiet penodol/arbennig, gan gynnwys figan, anoddefiad glwten a gofynion crefyddol. Roedd yr ysbyty yn cadw rhestr o anghenion deietegol penodol yn ogystal â dymuniadau personol a byddai'r cogydd yn trafod yr opsiynau addas gyda'r cleifion.

Roedd adborth y cleifion ar y prydau bwyd a'r opsiynau ar y fwydlen yn cael ei goladu ac roedd hyn yn helpu i adolygu a llunio'r opsiynau ar y fwydlen. Nid oedd gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw bryderon am y prydau a oedd ar gael.

Yn ogystal â'r prydau a ddarparwyd, gallai'r cleifion ddefnyddio'r ceginau therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau eu hunain, a oedd yn eu galluogi i gynnal a meithrin sgiliau coginio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y broses o reoli meddyginiaethau ar bob ward yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel gyda chypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo. Roedd mewnbwn rheolaidd gan y fferyllfa ac roedd meddyginiaethau'n cael eu harchwilio a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty. Yn ogystal â hyn, roedd proses ar waith os oedd angen archebu meddyginiaeth frys.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrddydd. Gwnaethom nodi bod yr oergell ar Ward Glaslyn rywfaint yn uwch na'r amrediad gofynnol, ac mae angen i'r darparwr cofrestredig gadw llygad ar hyn yn ystod tywydd cynhesach er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn parhau i gael ei chadw o fewn yr amrediad gofynnol.

Roedd gwiriadau stoc yn cael eu cynnal yn wythnosol er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth ar gael. Os nad oedd meddyginiaeth ar gael, byddai hyn yn cael ei gofnodi ar system cofnodi digwyddiadau'r darparwr cofrestredig a byddai

ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r mater, gan ddangos y gwersi a ddysgwyd o'r canlyniad.

Gwnaethom arsylwi ar y staff yn trafod meddyginiaeth â'r cleifion a gwelsom fod y trafodaethau hyn â'r cleifion wedi cael eu dogfennu a'u cofnodi yng nghynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir, er nad oedd Cyffuriau a Reolir yn cael eu defnyddio yn yr ysbyty nac yn cael eu storio ar adeg ein harolygiad.

Roedd Siartiau'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR) a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf, llun o'r claf a'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.² Roedd siartiau MAR yn cynnwys copiâu o dystysgrifau cydsynio i driniaeth ac yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a nodwyd rheswm pan na fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhoi.

Yn ogystal â hyn, roedd pob ward yn cadw cofnod o'r nyrs a fyddai'n cwblhau pob cylch meddyginiaeth. Roedd hyn yn rhoi llwybr archwilio ychwanegol o ran rhoi meddyginiaeth yn ogystal â llofnodion y nyrsys ar y Siartiau MAR.

Gwnaethom ofyn am gael gweld detholiad o bolisiâu. Cawsom amrywiaeth o bolisiâu, ond, ar ôl edrych arnynt, nodwyd nad oedd dyddiadau ar y rhan fwyaf o'r fersiynau a roddwyd i ni ac nad oedd proses briodol ar gyfer rheoli fersiynau wedi cael ei rhoi ar waith. Dywedodd y darparwr cofrestredig wrthym fod pob polisi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd a bod gwaith yn cael ei wneud i unioni'r mater. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dyddiad yn cael ei nodi ar bob polisi er mwyn sicrhau bod y staff yn derbyn y canllawiau mwyaf cyfredol i lywio eu hymarfer proffesiynol.

² Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr oergell feddyginiaeth ar Ward Glaslyn o fewn yr amrediad gofynnol bob amser.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dyddiad yn cael ei nodi ar bob polisi er mwyn sicrhau bod y staff yn derbyn y canllawiau mwyaf cyfredol i lywio eu hymarfer proffesiynol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd yn amlwg hefyd bod gweithiwr cymdeithasol yr ysbyty yn ymrwymedig i ddatblygu a chynnal cydberthynas waith dda â phartneriaid amlasiantaeth. Mae'r dull cydweithredol hwn yn allweddol er mwyn sicrhau prosesau diogelu effeithiol ac roedd yn dangos bod yr ysbyty yn rhoi pwyslais cryf ar ddiogelu eu cleifion. Y gweithiwr cymdeithasol oedd yn arwain ar brosesau diogelu, trefniadau ymweld/cyswllt â phlant a chynllunio gofal. Gallai plant ymweld â'r ysbyty drwy fynd i ystafell ddynodedig.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal ar yr offer dadebru, ac roedd y staff yn cofnodi pryd y digwyddodd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol ac o fewn y dyddiad.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Roedd trefniadau llywodraethu clinigol yr ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu'r Darparwr Cofrestredig a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd cysylltiadau â cholegau, canolfannau hamdden a mentrau cymunedol lleol yn sicrhau bod y cleifion yn cael mynediad at gyrsiau a gweithgareddau, gan alluogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn ystod eu hamser yn yr ysbyty a phan fyddant ar absenoldeb heb oruchwyliaeth hefyd.

Roedd yr ysbyty'n cydweithio â Chlwb Pêl-droed Wrecsam lle roedd rhai o'r cleifion yn mynd ac roedd rhai o'r cleifion hefyd yn gwirfoddoli mewn canolfannau garddio a chlybiau camlas lleol.

Fel y nodwyd yn yr adran ddiogelu flaenorol yn yr adroddiad hwn, roedd yn gadarnhaol gweld bod y gweithiwr cymdeithasol a'r heddlu lleol wedi datblygu cydberthynas waith gadarn, gan eu bod yn cynnal cyfarfodydd misol a phrotocolau rhannu gwybodaeth.

Roedd laniardau yn cael eu rhoi i'r staff yn yr ysbyty a oedd yn siarad Cymraeg, er mwyn dangos eu bod yn gallu siarad yr iaith. Roedd rhestr o'r staff yn y dderbynfa hefyd yn nodi pa aelodau o staff oedd yn siarad Cymraeg yn yr ysbyty.

Yn ystod ein trafodaethau â rheolwr a chyfarwyddwr yr ysbyty, cawsom nifer o enghreifftiau lle roeddent yn adolygu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu ac yn ystyried troi rhan o'r ysbyty yn wasanaeth awtistiaeth arbenigol. Rhaid i reolwr yr ysbyty sicrhau ei fod yn ymgynghori ag AGIC yn rheolaidd mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth a ddarperir yn y dyfodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod AGIC yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau newydd, neu sydd i ddod, i'r gwasanaethau a ddarperir yn yr ysbyty.

Rheoli cofnodion

Ffeiliau papur oedd cofnodion y cleifion a oedd yn cael eu storio a'u cadw mewn swyddfeydd nyrsio oedd dan glo. Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad. Roedd cofnodion y cleifion yn drefnus iawn ac roedd ansawdd y cofnodion o safon broffesiynol dda.

Roedd systemau electronig da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu a systemau sefydliadol eraill, a oedd yn helpu wrth reoli a rhedeg yr ysbyty.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol tri chlaf ar Wardiau Glaslyn, Clwyd ac Adferiad. Gwelwyd bod yr holl gofnodion yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Ymarfer. Roedd y cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel a'u cadw yn swyddfa gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd y cofnodion

a welsom yn drefnus, yn hawdd eu darllen ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Roedd systemau archwilio cadarn ar waith ar gyfer rheoli ac archwilio dogfennau statudol ac mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhan o'r cyfarfodydd llywodraethu clinigol.

Caiff pob aelod o'r staff hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl fel rhan o'r rhaglen sefydlu ac mae hyfforddiant penodol ar iechyd meddwl yn rhan o fodiwlau hyfforddiant gorfodol y staff. Mae'r rheolwr Deddf Iechyd Meddwl hefyd yn aelod o fforwm rheolwr Deddf Iechyd Meddwl Cymru Gyfan.

Roedd ffurflenni absenoldeb o dan Adran 17³ yn cael eu cwblhau'n briodol, roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar eu cyfer, ac roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses. Caiff pob un o'r cleifion wybodaeth sy'n berthnasol i'w hadran pan gânt eu derbyn i'r ysbyty, a chânt eu cyflwyno i'r Rheolwr Deddf Iechyd Meddwl. Hefyd, caiff hawliau'r cleifion eu trafod â nhw bob mis. Roedd cydymffurfiaeth amlwg â phroses y Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, er enghraifft roedd amserlenni a threfniadau gweinyddol, ac roedd hyn i'w weld drwy'r broses archwilio.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal pum claf a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr, ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddyliol a chorfforol.

Roedd asesiadau o anghenion ac asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu cwblhau yn ystod cyfnod derbyn y claf, a oedd yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cynllun gofal a'r strategaethau rheoli risg a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar y wardiau. Roedd tystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn adlewyrchu parthau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

³Mae absenoldeb o dan Adran 17 yn caniatáu i glaf sy'n cael ei gadw adael yr ysbyty

Roedd cynlluniau rheoli risg hefyd yn cael eu personoli ac yn nodi sbardunau posibl i'r cleifion, gan alluogi'r staff i nodi newidiadau yn eu hymddygiad.

Ar y cyfan, roedd y dogfennau nyrsio a welsom yn dda iawn ac roedd yr asesiadau corfforol wedi'u cwblhau'n dda, ond nid oedd y cynlluniau rheoli risg na'r cynlluniau gofal wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn dangos bod y claf wedi cyfrannu a chymryd perchenogaeth drostynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob cynllun rheoli risg a gofal yn cael ei ysgrifennu mewn iaith sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n dangos bod y claf unigol wedi cyfrannu ac wedi cymryd perchenogaeth drosto.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Arsylwyd ar dîm staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Roedd cyfraddau cwblhau hyfforddiant, goruchwyliaeth gan reolwyr ac arfarniadau blynyddol yn dda iawn.

Roedd dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig yn cael eu defnyddio gan dimau amlddisgyblaethol cydlynol. Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd rheolwr yr ysbyty yn defnyddio dulliau arwain ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael ei gefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymroddedig. Grŵp cydlynol o arweinwyr oedd y tîm, a gwelsom drwy gynnal cyfweiliadau â nhw eu bod yn gwerthfawrogi'r staff a'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn yr ysbyty, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd hi'n amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn ysbyty New Hall ac yn gorfforaethol drwy systemau adrodd rheolaidd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom adolygu'r ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd rhaglen hyfforddi fel bod y staff yn cael diweddariadau amserol. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion cydymffurfio aelodau unigol o'r staff.

Roedd yr holl staff yn cael Cyfarfodydd Datblygiad Proffesiynol rheolaidd gyda'r uwch-reolwyr a gwelsom dystiolaeth o drafodaethau a chynlluniau ystyrion a pherthnasol mewn perthynas â datblygiad proffesiynol, a oedd wedi'u cofnodi yng nghofnodion y staff unigol.

Dywedodd y staff wrthym fod tîm rheoli'r ysbyty yn gyfeillgar a bod aelodau'r tîm yn weladwy. Yn ystod cyfweiliadau â'r staff gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt yr hyder i siarad â'r tîm rheoli os oedd angen iddynt godi materion neu bryderon. Dywedodd y staff wrthym nad oedd cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn aml iawn a bod rheolwr yr ysbyty yn ystyried gwella hyn. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal a'u bod yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n golygu bod y broses yn fwy ystyrion, cefnogol a gwerthfawr i'r staff.

Roedd strwythur goruchwyllo ar waith a chadarnhaodd y staff eu bod wedi cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd. Siaradodd y staff yn gadarnhaol hefyd am y sesiynau goruchwyllo grŵp ac ymarfer myfyriol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn ysbyty New Hall. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg; gyda chofnodion o geisiadau, cyfweliadau a chyfathrebu ym mhob ffeil. Roedd geirdaon staff cyn cyflogaeth yn cael eu derbyn, roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau ac roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal, ac yna'n cael eu hadnewyddu bob tair blynedd.

Roedd y darparwr cofrestredig yn cadw ffeiliau'r staff asiantaeth a oedd yn cynnwys manylion am yr hyfforddiant perthnasol a'r gwiriadau cyflogaeth. Roedd staff newydd eu penodi yn cael eu sefydlu am gyfnod o amser o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni a gwnaethant esbonio'r systemau sefydlu sydd ar waith yn yr ysbyty.

Gwnaethom arsylwi ar uwch-aelod o staff yr ysbyty'n monitro myfyrwyr yn rhoi meddyginiaeth i'r cleifion a gwnaethom arsylwi ar fyfyrwyr yn cael eu mentora gan uwch aelodau o'r staff drwy gydol yr arolygiad. Roedd hyn yn gadarnhaol iawn ac yn dangos buddsoddiad yr uwch-aelodau o'r staff mewn datblygu, cefnogi a mentora staff newydd.

Dywedodd y staff wrthym y gallent gwblhau hyfforddiant ychwanegol a pherthnasol pan fyddai eu rheolwr llinell yn cymeradwyo hynny, ac roedd yr hyfforddiant hwn wedi'i gofnodi ar y taenlenni hyfforddiant a welsom. Roedd yn gadarnhaol gweld bod cyfleoedd hyfforddiant allanol yn cael eu rhoi i'r staff, a oedd yn eu galluogi i ennill cymwysterau ychwanegol.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir i'r staff godi unrhyw bryderon ac roedd y staff y gwnaethom eu holi yn gwybod am y polisi. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff hefyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Annibynnol New Hall

Ward/uned(au): Wardiau Adferiad, Clwyd a Glaslyn

Dyddiad arolygu: 9 – 11 Mawrth 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl waith adeiladu yn cael ei gwblhau a bod y deunyddiau adeiladu'n cael eu clirio cyn bod rhagor o gleifion yn cael eu derbyn i Ward Adferiad.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Nid oedd un ystafell ar Ward Adferiad yn cael ei defnyddio ac ni ellid gwaredu'r deunyddiau a gaiff eu cadw yno ar safle amwynder dinesig. Cawsant eu symud oddi yno y diwrnod canlynol (Nid oedd y cleifion yn gallu cael mynediad i'r ystafell).	Andy Bray Gweithiwr Cynnal a Chadw'r Ysbyty	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod llawr newydd yn cael ei osod yn ystafell y gawod gymunedol ar Ward Adferiad.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Roedd y gorchudd llawr wedi cael ei dynnu oddi yno gan un person a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn yr ystafell gawod ar un o'r wardiau. Rhoddwyd gwybod am hyn ac mae eisoes wedi/bydd yn cael ei newid fel rhan o'r rhaglen rheoli ystadau.	Mike Pearce Pennaeth Ystadau	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig arddangos gwybodaeth am sut y gellir cysylltu ag AGIC.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion	Roedd posteri wedi'u lamineiddio yn cynnwys manylion cyswllt AGIC yn cael eu harddangos ar hysbysfyrdau ar bob ward yn ysbyty New Hall. Wrth symud ymlaen, bydd y Rheolwr Dros Dro yn cynnal archwiliad wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw yno. Nid oes modd arddangos poster wedi'i lamineiddio ar Ward Adferiad oherwydd y risg i Glaf. Caiff manylion cyswllt AGIC eu harddangos ar ffurf stori gymdeithasol yn lle hynny. Mae pob claf yn derbyn ei hawliau cyfreithiol o dan A132 unwaith y mis, a chaiff canlyniad hynny ei ddilysu gan Nyrs.	Matthew Howarth	Wythnosol

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Ymhlith hawliau cyfreithiol eraill, mae'r pecyn misol o wybodaeth am hawliau yn cynnwys manylion am sut y gall cleifion gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru dros y ffôn, drwy'r post neu dros e-bost a chânt wasanaeth eirioli i wneud hynny lle bo angen.		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn yr ysbyty yn ymwybodol o leoliad pob torrwr clymau.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y mopiau glân yn cael eu storio mewn ffyrdd gwahanol a phriodol.</p>	<p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> <p>13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi</p>	<p>Aed i'r afael â hyn gyda phob aelod o'r staff ar y diwrnod y gwnaeth AGIC godi'r mater. Caiff y broses o nodi a lleoli torrwr clymau ar gyfer pob ward ei chynnwys bellach yn sesiynau sefydlu'r staff. Mae'r torrwr clymau wedi'u lleoli mewn ardaloedd dynodedig, hygyrch ar bob ward.</p> <p>Mae'r mopiau wedi cael eu symud o ardal y dillad glân a chânt eu cadw yng nghypryddau COSHH y swyddog cadw tŷ.</p>	<p>Matthew Howarth</p> <p>Matthew Howarth a'r Personél Cadw Tŷ</p>	<p>Eisoes wedi cyfarfod – ac yn mynd rhagddo ar ffurf sesiynau sefydlu'r staff</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynhyrchion hylendid dwylo ar gael yn nerbynfa'r ysbyty	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae'r cynnyrch hylendid dwylo wedi cael ei osod yn nerbynfa'r ysbyty	Hollie Roberts	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cadeiriau yn y lolfa ar Wardiau Glaslyn a Chlwyd yn cael eu newid neu eu trwsio.	13. Atal a rheoli heintiau (IPC)	Caiff y cadeiriau eu hasesu i'w trwsio neu eu newid fel rhan o gynllun newid ystadau'r ysbyty	Matthew Howarth Mike Pearce	26.6.2020
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr oergell feddyginiaeth ar Ward Glaslyn o fewn yr amrediad gofynnol bob amser.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Byddwn yn gosod oergell feddyginiaeth newydd ar Ward Glaslyn er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau o ran tymheredd.	Matthew Howarth Mike Pearce	12.6.2020
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dyddiad yn cael ei nodi ar bob polisi er mwyn sicrhau bod y staff yn derbyn y canllawiau mwyaf cyfredol i lywio eu hymarfer proffesiynol.	15. Rheoli meddyginiaeth au	Caiff templed newydd ei greu ar gyfer polisïau er mwyn cynnwys rheoli fersiynau a dyddiadau rhyddhau ac adolygu	Gemma O'Malley	Cwblhawyd
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod AGIC yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau newydd, neu sydd i ddod, i'r gwasanaethau a ddarperir yn yr ysbyty.	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd 21. Ymchwil, Datblygu ac	Bydd y Darparwr Cofrestredig, Mental Health Care (UK) Limited a'r Rheolwr Dros Dro yn parhau i gyfathrebu'n agored ag AGIC am unrhyw newidiadau newydd a rhai sydd i ddod	Darparwr Cofrestredig Rheolwr Dros Dro (Matthew Howarth) Rheolwr	Parhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Arloesedd		Cofrestredig pan fydd yn dechrau yn ei swydd	
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob cynllun rheoli risg a gofal yn cael ei ysgrifennu mewn iaith sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n dangos bod y claf unigol wedi cyfrannu ac wedi cymryd perchenogaeth drosto.	20. Rheoli cofnodion	Mae'r Claf a'r Nyrs Benodol yn cyfarfod i lunio'r asesiadau risg a'r cynlluniau gofal. Caiff y Claf gymorth gan y Nyrs i lunio ei gynlluniau. Mae'r Nyrs yn gwrthlofnodi ei gynlluniau. Caiff Archwiliad o Ansawdd ei gynnal er mwyn adolygu'r dogfennau a nodwyd gan AGIC a chaiff y canlyniadau a'r camau gweithredu eu rhannu â'r Nyrsys Sylfaenol a'r tîm amlddisgyblaethol.	Pob aelod o'r tîm amlddisgyblaethol, Matthew Howarth	26/6/2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod prosesau ar waith er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol.	Mae prosesau ar waith erbyn hyn ac mae cyfarfodydd staff wedi cael eu cynnal ers arolygiad AGIC. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn y dyddiadur erbyn hyn. Caiff cynllun o gyfarfod pob ward a phob tîm ei anfon at bob aelod o'r staff sydd wedi cael ei wahodd i gyfrannu at eu hagenda, sy'n	Matthew Howarth	Cwblhawyd ac yn barhaus

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cael ei arddangos cyn y cyfarfodydd.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): MATTHEW HOWARTH

Teitl swydd: Rheolwr Dros Dro yr Ysbyty

Dyddiad: 2/6/2020